



# RHANBARTH GORLLEWIN CYMRU

## ADRODDIAD ANABLEDDAU DYSGU

**MAWRTH 2025**

**LLAIS** 

Eich llais mewn iechyd | Your voice in health  
a gofal cymdeithasol | and social care

# Fformatau Hygyrch

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni ar [ymholidadu@llaiscymru.org](mailto:ymholidadu@llaiscymru.org)

Gallwch ei lawr lwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa.

# Cynnwys

Am Llais	4
Cefndir	5
Beth wnaethon ni	6
Yr hyn a ofynasom	7
Beth y glywsom	9
Cael babi neu blentyn ag anableddau dysgu	11
Ysgol ac addysg	14
Cefnogaeth i fynd i lefydd	16
Seibiant a gofalwyr	18
Gofal preswyl	20
Dulliau aml-asiantaeth	23
Defnyddio gwasanaethau gofal iechyd	23
Gwasanaethau gofal cymdeithasol	28
Cyfathrebu	31
Heneiddio ag anableddau dysgu	33
Pan nad yw pethau'n mynd yn iawn	35
Diolch	36
Manylion Cyswllt	36

# Am Llais

Rydym ni'n credu mewn Cymru iachach lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnyn nhw mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw.

Rydym yma i ddeall eich barn a'ch profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio'ch adborth i lunio'ch gwasanaethau.

Rydym yn chwilio am straeon da a drwg fel ein bod yn deall beth sy'n gweithio'n dda a sut y gallai fod angen i wasanaethau wella. Ac rydym yn ceisio siarad yn arbennig â'r rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Rydym hefyd yn siarad â phobl am eu barn a'u profiadau trwy gynnal digwyddiadau yn eich cymunedau lleol neu ymweld â chi ble bynnag yr ydych yn derbyn eich gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol.

Rydym hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a grwpiau â diddordeb ac yn unol â mentrau cenedlaethol i gasglu barn pobl.

A phan aiff pethau o chwith rydym yn eich cefnogi i wneud cwynion.

Mae 7 Rhanbarth Llais yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais "claf a chyhoeddus" mewn gwahanol rannau o Gymru.





# Cefndir

Gwyddom fod gan bobl yn ein cymunedau ar draws Gorllewin Cymru wahanol fathau o sgiliau, galluoedd ac anghenion. Mae angen mwy o help a chefnogaeth ar rai pobl i fyw'n dda oherwydd bod ganddyn nhw anableddau dysgu. Efallai y byddan nhw'n defnyddio gwasanaethau iechyd yn amlach ac angen cymorth gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn iddyn nhw allu cael bywydau llawn, annibynnol ac aros yn ddiogel.

Pan fydd pobl ag anableddau dysgu yn defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gall eu profiadau fod yn wahanol i bobl eraill nad oes ganddynt anableddau dysgu.

Mae Llais yn clywed gan ystod eang o bobl ledled Cymru am iechyd a gofal cymdeithasol. Weithiau rydym yn clywed straeon da lle mae pobl yn teimlo eu bod wedi cael cymorth a chefnogaeth wirioneddol. Rydym hefyd yn clywed straeon negyddol, lle mae pethau wedi mynd o chwith, a phobl yn teimlo eu bod wedi cael eu siomi. Pan fydd pobl yn rhoi'r wybodaeth hon inni, gallwn gyfarfod â byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i rannu gyda hwy'r hyn sy'n digwydd, fel y gallwn gyda'n gilydd geisio gwneud pethau'n well i bawb.

Gwyddom nad ydym yn aml yn clywed gan bobl ag anableddau dysgu am eu barn a'u profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod angen i ni wneud mwy o ymdrech i ganfod eu barn a'u profiadau. Yn lle aros i bobl gysylltu â Llais i rannu eu barn, mae angen i ni gwrdd â phobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr, ffrindiau, teuluoedd ac eraill, i weld beth y gallwn ei ddarganfod a beth maent am ei rannu gyda ni.

Fe wnaethom gynllunio'r gwaith hwn yn hydref 2024. Gwnaethom ddweud wrth rai pobl am ein cynlluniau a chanfod bod pobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro yn awyddus i ddweud wrthym am eu profiad bywyd. Ym mis Rhagfyr 2024, i'n helpu ni ymhellach gyda'r darn hwn o waith, fe wnaethom ddefnyddio arolwg hawdd ei ddarllen i helpu pobl i rannu eu barn gyda ni.

Doedden ni ddim yn gwybod beth fydden ni'n clywed amdano yn ein harolwg na faint o bobl fyddai'n ymateb i ni neu os oedd pobl wedi blino llenwi arolygon.

Nid oeddem yn gwybod a fyddem yn clywed pethau da neu brofiadau anodd ar y cyfan, ac roedd gennym feddwl agored am yr hyn a ddywedid wrthym.

Mae pobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalmwr yn gwybod y bydd angen rhywfaint o gymorth iechyd neu ofal cymdeithasol arnynt drwy gydol eu hoes. Dyna pam ei bod yn bwysig bod y gwasanaethau hyn yn bodloni eu hanghenion ac yn gweithio'n dda.

Clywsom y gallai rhai pobl fod yn nerfus ynghylch rhoi adborth negyddol am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Felly roeddem yn awyddus i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu dweud wrthym am eu profiadau yn ddienw ym mha bynnag ffordd oedd yn gweddu orau iddynt.

Gall gorfod dibynnu ar wasanaethau am amser hir, o bosibl am eich bywyd cyfan, olygu ei bod yn anodd cwyno pan nad yw pethau'n iawn.





# Beth wnaethom ni

Yn gyntaf, buom yn siarad â phobl sydd â phrofiad o anableddau dysgu i weld beth oedd angen i ni feddwl amdano wrth gynllunio'r gwaith hwn. Fe wnaethom gysylltu â People First Sir Benfro, Mencap, Anableddau Dysgu Cymru a rhai rhieni/gofalwyr oedolion ag anableddau dysgu.

Roeddent yn gefnogol i'r gwaith yr oeddem yn bwriadu ei wneud. Roeddent yn teimlo bod pobl ag anableddau dysgu yn aml yn cael eu diystyru neu nad oedd eu barn yn cael ei cheisio na'i chlywed.

Roedd yn rhaid i ni sicrhau bod pobl yn gallu cysylltu â ni mewn llawer o ffyrdd. Clywsom y gallai rhai pobl fod eisiau cyfarfod â ni yn bersonol. Byddai eraill eisiau siarad â ni dros y ffôn neu sgysiau ar-lein. Efallai y bydd eraill am roi straeon i ni trwy e-bost.

Roedden ni wir eisiau clywed yn uniongyrchol gan bobl ag anableddau dysgu. I'n helpu ni gyda hyn fe wnaethom baratoi ffurflenni arolwg mewn Hawdd ei Ddarllen yn ogystal â dogfennau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gofynnem i bobl rannu'r ffurflenni a'r dogfennau i ni.



# Yr hyn a ofynasom

Ar ein ffurflen arolwg gallai pobl ateb rhai neu bob un o'r cwestiynau a ofynnwyd gennym. Gwyddom y gallai fod gan bobl farn gref am un pwnc a bod ganddynt llawer i'w ddweud ond efallai na fyddant am rannu gwybodaeth am bopeth a ofynnwyd gennym.

Fe wnaethom ofyn a oedd gan bobl gyflyrau iechyd yn ogystal ag anabledd dysgu oherwydd gall wneud bywyd o ddydd i ddydd yn fwy cymhleth os oes angen llawer o wahanol wasanaethau iechyd a gofal arnynt. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun ag anabledd dysgu sy'n defnyddio cadair olwyn yn ei chael yn fwy anodd defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd clinigau ac ysbytai.

Gofynnwn ni i bobl ble roedden nhw'n byw a gyda phwy roedden nhw'n byw. Gwyddom y gallai pobl sy'n byw gydag aelodau o'r teulu gael llawer o help di-dâl gan rieni, partneriaid, brodyr a chwiorydd neu bobl eraill. Efallai y bydd angen i bobl eraill ag anableddau dysgu sy'n byw'n annibynnol dalu am gymorth. Gwyddom hefyd y gall pobl sy'n byw mewn cartrefi grŵp gael rhywfaint o gymorth ond hefyd rhywfaint o annibyniaeth a phreifatrwydd. Gallai pobl ag anableddau dysgu weithio, astudio, gwirfoddoli neu ddarparu gofal i eraill ac felly fe ofynnwn ni i bobl sut roedden nhw'n treulio eu hamser. Gallai rhai pobl fod yn gyfyngedig iawn o ran yr hyn y gallent ei wneud ac o bosibl yn ddibynnol iawn ar bobl eraill am gwmni a gweithgareddau.

Fe wnaethom ofyn i bobl ddweud wrthym sut yr oeddent yn defnyddio gwasanaethau iechyd. Roedden ni eisiau i bobl ddweud wrthym beth oedd yn bwysig iddyn nhw. Fel rhan o hyn gofynnwyd i bobl ystyried pethau da, pethau drwg a newidiadau oedd eu hangen.

Fe wnaethom hefyd ofyn i bobl ddweud wrthym am eu profiadau pan oeddent yn defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol. Nid yw pawb yn defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac efallai na fydd gan rai pobl unrhyw beth i'w ddweud wrthym. Efallai y bydd pobl eraill yn defnyddio sawl gwasanaeth gofal gwahanol i'w helpu. Efallai bod ganddyn nhw ofalwr i roi gofal personol iddyn nhw, i fynd â nhw i siopa, neu i'w helpu i gyrraedd y gwaith neu'r coleg. Weithiau gallai eraill fynd i ganolfan ddydd i gael gofal seibiant neu gymorth gyda gweithgareddau yn gyffredinol.



Yn ein harolwg, gallai pobl roi eu manylion cyswllt i ni os oeddent yn dymuno. Gallai hyn ein helpu i gysylltu â nhw eto i roi rhagor o wybodaeth i ni a gallem anfon canfyddiadau ein gwaith atynt.

Yn olaf, gofynnwyd i bobl ddweud wrthym am eu hoedran, rhyw, ethnigrwydd ac ati. Gallai pobl ateb pob un, rhai neu ddim o'r cwestiynau hyn. Gofynnwn am y wybodaeth hon i'n helpu i wneud yn siŵr ein bod yn clywed gan bawb yn ein cymunedau yng Ngorllewin Cymru. Pan edrychwn ar y wybodaeth hon, weithiau gallwn weld y gall fod grwpiau o bobl nad ydym byth yn clywed ganddynt. Yna gallwn geisio gwneud rhywbeth i'w gwneud yn haws iddynt gysylltu â ni yn y dyfodol.



# Beth y glywsom

Cawsom dros 60 o ymatebion i'n harolwg. Cawsom hefyd sgysiau da iawn gyda phobl am y gwaith yr oeddem yn ei wneud. Roedd bron pob un o'r bobl a ymatebodd i'n harolwg yn dod o'r tair sir yng Ngorllewin Cymru, gyda'r rhan fwyaf yn dod o Sir Benfro.

Clywsom yn bennaf gan bobl ag anableddau dysgu eu hunain. Gwyddom fod rhai wedi cael help i lenwi ein harolwg. Gwnaethom hefyd siarad â phobl dros y ffôn, drwy e-bost ac yn bersonol.

Dyweddodd tua chwarter y bobl fod ganddynt broblem iechyd corfforol yn ogystal ag anabledd dysgu. Dywedodd tua hanner y bobl a gwblhaodd yr arolwg wrthym fod ganddynt awtistiaeth neu syndrom Asperger. Dywedodd sawl person fod ganddyn nhw broblemau iechyd meddwl, syndrom Down neu epilepsi. Roedd yna hefyd unigolion a ddywedodd fod ganddynt barlys yr ymennydd, ADHD, dementia a chyflyrau corfforol eraill.

Roedd y bobl a lenwodd yr arolwg yn byw mewn llawer o leoliadau gwahanol gydag ychydig llai na hanner yn byw mewn llety rhent neu eiddo gyda'u teulu. Roedd y rhan fwyaf yn byw mewn llety â chymorth neu gartrefi gofal. Roedd ychydig llai na hanner y bobl y gwnaethom gysylltu â nhw yn byw gyda phobl eraill nad oeddent yn rhan o'u teulu. Roedd ychydig o bobl yn byw ar eu pen eu hunain.

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn teimlo eu bod yn cael y cymorth roedd ei angen arnynt i fyw yn eu cartrefi. Roedd rhai pobl yn teimlo nad oedd y gefnogaeth a gawsant yn ddigon ac roedd rhai yn ansicr.

Dyweddodd rhai pobl wrthym sut yr oeddent yn treulio eu hamser bob dydd a'r gweithgareddau yr oeddent yn cymryd rhan ynddynt. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a atebodd y cwestiwn hwn naill ai'n ymwneud â gwaith gwirfoddol, gofalu am eu teulu neu yn yr ysgol/ coleg dim ond 2 o bobl a ddywedodd wrthym eu bod mewn gwaith cyflogedig. Dewisodd nifer o bobl beidio ag ateb y cwestiwn hwn.



## Cael babi neu blentyn ag anableddau dysgu

Rhannodd rhai pobl gyda ni eu taith oes o fyw gydag aelod o'r teulu ag anabledd dysgu. Roedd y rhain yn straeon teimladwy iawn am yr heriau yr oeddent wedi'u hwynebu dros nifer o flynyddoedd.

Er bod rhai o'r profiadau hyn yn dod o flynyddoedd lawer yn ôl, roedd pobl yn gallu cofio'n glir sut roedden nhw'n teimlo ac roedden ni'n teimlo ei bod hi'n bwysig rhannu rhannau o'u straeon. Dywedodd pobl wrthym fod yr anawsterau yr oeddent yn eu hwynebu yn aml yn dechrau pan oedd eu plentyn yn ifanc iawn ond yn parhau trwy gydol eu plentyndod ac i fod yn oedolyn.

Yn ystod beichiogrwydd, nid oedd y rhan fwyaf o bobl yn gwybod y byddent yn cael babi ag anabledd dysgu. Roedden nhw'n disgwyl cael babi iach. Weithiau bydd rhieni'n gwybod cyn i'w babi gael ei eni, y bydd gan eu plentyn anabledd dysgu oherwydd bod profion yn ystod beichiogrwydd ar gyfer cyflyrau fel syndrom Down. Efallai y bydd rhieni eraill yn cael profion yn ystod beichiogrwydd sy'n dod o hyd i annormaledd a allai ddangos y bydd gan y babi rai anableddau yn ôl pob tebyg. Ond fel arfer, mae rhieni'n disgwyl cael babi iach heb unrhyw broblemau ac nid yw anableddau dysgu bob amser yn cael eu darganfod pan gaiff babi ei eni neu hyd yn oed yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf.



*“fe lefodd a leffodd a leffodd yn gyson. Roedd hyd yn oed fy mam wedi synnu cymaint yr oedd yn crio. Roedd hyn yn drallodus iawn ac er i’r meddygon ei ddiagnosio â cholig ac adlif, nid oedd dim llawer a roddasant i ni yn ei atal rhag crio.”*

I rieni tro cyntaf, wrth ddelio ag anawsterau megis crio cyson neu broblemau bwydo, gall cyfnod cynnar y babi fod yn gyfnod heriol. Efallai eu bod yn cael ychydig iawn o gwsg ac yn teimlo wedi blino’n lân. Efallai eu bod yn delio â materion gofal babanod ac efallai na fyddant bob amser yn gwybod beth sy’n normal neu ddim yn normal.

Wrth i’r babanod dyfu’n blant bach, clywsom y gallai aelodau o’r teulu sydd â mwy o brofiad o fabanod neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol sylwi ar ymddygiadau anarferol yn aml. Ond ni fyddai’r gwahanol ymddygiadau hyn bob amser yn gysylltiedig ag anabledd dysgu neu broblem ddatblygiadol am amser hir.

Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn poeni bod eu babi yn wahanol i eraill o’r un oed ond nad oeddent yn gwybod â phwy i siarad am hyn. Dywedwyd wrth rieni am beidio â chymharu plant â’i gilydd oherwydd byddant yn datblygu ar eu cyflymder eu hunain. Ond, gall bod yn bryderus am y sefyllfa hon wneud i bobl deimlo’n unig ac yn ynysig. Nid yw’n hawdd sgwrsio â rhieni eraill pan fyddwch chi’n poeni bod eich plentyn yn wahanol.

Mae ymwelwyr iechyd yno i gefnogi teuluoedd ac yn enwedig rhieni tro cyntaf ond nid oedd perthnasoedd gyda gweithwyr proffesiynol bob amser yn gweithio’n dda ac nid oeddent mor gefnogol ag y gallent fod. Teimlai rhieni fod angen cymorth arnynt ond nid oedd hyn bob amser yn hawdd.

Clywsom mai dim ond pan fethodd plant bach â chwrdd â’u cerrig milltir datblygiadol y dechreuwyd gwranddo ar rieni a’u cymryd o ddifrif. Tan hynny, roedd rhieni’n aml yn teimlo eu bod yn cael eu hystyried yn rhieni drwg nad oeddent yn gallu ymdopi. Roedd hyn yn golygu bod rhieni weithiau’n teimlo eu bod yn cael eu gweld fel y problem.



*“...nid oedd unrhyw un i’w weld yn cynnig unrhyw help. Ar un adeg roedd yn teimlo bod y Therapydd Iaith a Lleferydd yn ein beio oherwydd bod ein plentyn yn araf i siarad. Awgrymwyd nad oeddem yn ymgysylltu ag ef yn iawn nac yn treulio digon o amser gydag ef. Dywedasant wrthym am ddarllen mwy iddo a chwarae mwy gydag ef.”*

Clywsom am rieni a oedd yn teimlo dan bwysau i fynychu dosbarthiadau magu plant er nad oeddent yn meddwl mai dyma’r ateb cywir. Clywsom, pe na baent yn cytuno i fynychu dosbarthiadau, y gallai hyn roi mwy fyth o straen ar y berthynas ag ymwelwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn gwrthod cyngor proffesiynol.

Dywedodd teuluoedd wrthym, os oeddent yn byw mewn ardal dlotach a heb swyddi proffesiynol, eu bod weithiau’n teimlo bod gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn rhy gyflym i ddweud nad oeddent yn ymdopi.

Clywsom hefyd, pan fydd gan rieni blentyn sydd ag ychydig o oedi yn ei ddatblygiad ac ymddygiad gwahanol, y gallai fod yn anodd dod o hyd i ofal plant priodol.

*“Dywedodd y gwarchodwr plant yn gyflym iawn na allai ymdopi ag ef gan nad oedd fel plant eraill.”*

*“Ar ôl hanner diwrnod yn y feithrinfa, dywedwyd wrthym nad oedd yn gweithio allan.”*

Roedd diffyg darpariaeth gofal plant yn golygu nad oedd bob amser yn bosibl i’r ddau riant weithio, yn enwedig os oedd ganddynt hefyd gefnogaeth deuluol gyfyngedig megis neiniau a theidiau neu fodrybedd ac ewythrod. Gallai fod effaith annisgwyl ar gyllid teulu ac efallai y bydd yn rhaid i gynlluniau ar gyfer bod yn rhiant cynnar newid yn gyflym. Mae’n bosibl y bydd yn rhaid i riant aros gartref, gwneud cais am fudd-daliadau neu wneud trefniadau gwaith gwahanol megis dod yn weithiwr rhan amser neu’n hunangyflogedig.

Roedd rhieni’n aml yn teimlo’n ynysig a byddent yn ymchwilio i ddarganfod mwy am broblemau eu plentyn i weld a oedd unrhyw un arall mewn sefyllfa debyg. Gallai cyfryngau cymdeithasol helpu, ond byddai rhieni’n dal i deimlo’n rhwystredig ynghylch y diffyg cymorth sydd ar gael. Clywsom am un teulu a deithiodd i America i geisio dod o hyd i ffyrdd o helpu eu plentyn, gan orfod sefydlu eu rhwydweithiau cymorth eu hunain weithiau.

Clywsom hefyd nad oedd rhieni yn aml yn cael gwybod am ddiagnosis o 'Anabledd Dysgu' a'i fod yn derm nad oedd bob amser yn cael ei ddefnyddio gyda nhw. Dywedodd un fam wrthym:

*"Ni chafodd ei grybwyll yn ei gofnodion meddygol nes ei fod tua 7 neu 8. Yn sydyn daeth y term i'r amlwg a chawsom dipyn o sioc gan nad oedd neb erioed wedi eistedd i lawr i'n hesbonio. Wedi hynny, term neu label oedd yn ymddangos ar bron popeth."*

Nid oedd pethau bob amser yn negyddol. Clywsom fod rhai teuluoedd wedi cael cefnogaeth dda gan weithwyr proffesiynol a oedd yn garedig, yn ofalgar ac yn wirioneddol empathig. Gallai cyfarfod â phobl fel hyn wneud gwahaniaeth enfawr i rieni, teuluoedd estynedig a phlant ag anableddau dysgu.

## **Ysgol ac addysg**

Unwaith y cyrhaeddodd plant ag anableddau dysgu oedran ysgol, nid oedd yn hawdd o hyd, nid mater o gofrestru eich plentyn yn yr ysgol leol yn unig ydoedd. Os yw plentyn ag anabledd dysgu yn gallu mynychu ysgol brif ffrwd, efallai y bydd yn rhaid i rieni ddelio â chyfarfodydd ychwanegol, trafod addasiadau unigol neu ddarparu cymorth ystafell ddosbarth cychwynnol.





Dyweddodd rhai rhieni wrthym eu bod yn teimlo rhyddhad nad oedd eu plentyn yn cael ei weld fel problem am y tro cyntaf ond yn hytrach yn blentyn ag anghenion gwahanol ac y byddai'r system addysg yn gweithio o'i gwmpas. Roeddent yn mwynhau'r ffaith bod eu plentyn yn gallu mynd i rywle yn rheolaidd a chwrdd â phlant eraill.

Weithiau, ni allai plant fynd i'r ysgol leol ac roedd angen addysg arbenigol. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i'r plentyn fynd i ysgol arbennig a allai gefnogi plant ag anghenion ychwanegol. Gallai hyn gynnwys teithio, cludiant arbenigol ac efallai na fydd gan y plentyn ffrindiau ysgol yn byw yn agos at ei gartref.

Hyd yn oed pan oedd yn rhaid i blant fynd i ysgol arbennig, roedd rhai rhieni, am y tro cyntaf, yn teimlo'n llai unig oherwydd y gallent ymwneud â rhieni eraill a phlant yn yr un sefyllfa. Cyfarfuont â staff a oedd yn groesawgar ac a oedd â dealltwriaeth dda iawn o'r anawsterau yr oeddent wedi'u hwynebu. Cawsom rai sylwadau cadarnhaol am nyrsys ysgol mewn ysgolion arbennig a sut y gallent fod yn gefnogol iawn.

Serch hynny, gall fod yn anodd pan fydd yn rhaid i blentyn gael ei addysgu i ffwrdd o'i ardal gartref neu mewn ysgol wahanol i blant eraill yn y teulu. Efallai y bydd rhieni'n cael eu gorfodi i ddewis rhwng digwyddiadau ysgol eu plant ac ati a theimlo eu bod yn cael trafferth bod yn deg â'u holl blant. Clywsom hefyd gan rieni a oedd yn teimlo eu bod yn galaru am y profiad ysgol traddodiadol yr oedden nhw'n ei gael pan oedden nhw'n ifanc ac na allai eu plentyn ei gael.



Clywsom hefyd y gallai fod yn rhaid i rieni ystyried ysgolion preswyl neu lety wrth i'w plentyn fynd yn hŷn er mwyn gallu diwallu eu hanghenion addysg a gofal. Gallai teuluoedd ei chael yn anodd pan oedd eu plentyn i ffwrdd yn rheolaidd yn ystod yr wythnos ac yn dod adref ar benwythnosau a gwyliau oherwydd bod yn rhaid addasu i arferion newydd.

Yn aml, roedd plant yn magu hyder a sgiliau byw'n annibynnol yn sylweddol pan oeddent yn byw i ffwrdd. Gwnaethant ffrindiau newydd a datblygu fel unigolion. Ond clywsom hefyd fod pobl yn dal i boeni am eu dyfodol hirdymor:

*“Rwy'n 14 ac yn poeni am gael swydd. Mae gan yr ysgol lawer o ddiwrnodau profiad gwahanol, ond rwy'n poeni am fy nghyfleoedd y tu hwnt i'r ysgol a'r coleg yn dysgu am brofiad pobl eraill..”*

## **Cefnogaeth i fynd i lefydd**

O'n gwaith, clywsom hefyd fod teuluoedd pobl ag anableddau dysgu yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu gadael i fwrw ymlaen â llawer o bethau ar eu pen eu hunain heb fawr o help na chefnogaeth. Gall digwyddiadau o ddydd i ddydd fel ymweliadau ag ysbytai, apwyntiadau optegwyr, siopa archfarchnad ac ati fod yn feichus. Maent yn aml yn cymryd llawer o amser ac yn flinedig, gan gymryd llawer mwy o gynllunio nag y gallai fod ei angen ar bobl heb anableddau dysgu.

I rai pobl, gallai materion ymarferol fel yr angen am gadeiriau gwthio arbennig neu gadeiriau olwyn wneud gwibdeithiau yn fwy o ddiodefaint. Hyd yn oed os nad oes gan berson unrhyw broblemau corfforol ychwanegol, mae angen ceisio paratoi ar gyfer sefyllfaoedd annisgwyl megis lleoliadau swnllyd, goleuadau llachar, torfeydd a sefyllfaoedd eraill a all fod yn gythryblus iawn.

Gall diffyg manau tawel wneud lleoliadau cyhoeddus yn boenus iawn i bobl ag anableddau dysgu. Pan fyddant yn wynebu llawer o deimladau anodd, gallant brofi pyliau o ymddygiad uchel neu ymddatod a gall y rhain beri gofid iddyn nhw, eu gofalwyr a'u teuluoedd.



Pan fydd angen cewynnau ar blant y tu hwnt i blentyndod, neu pan fydd angen cymorth anymataliaeth ar oedolion gydol eu hoes, gall hyn olygu bod yn rhaid gwneud llawer o gynllunio ychwanegol ar gyfer gwibdeithiau. Nid oes gan lawer o fannau cyhoeddus, hyd yn oed cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol, fannau newid addas. Mae hyn yn golygu bod pobl weithiau'n gorfod newid cewynnau/cymhorthion anymataliaeth wrth orwedd ar y llawr mewn toiledau cyhoeddus neu mewn mannau amhriodol eraill. Efallai hefyd y bydd angen mwy o newid dillad a chyfleusterau golchi.

Wrth i blant ddod yn oedolion gall hyn fod yn fwy heriol. Yn aml bydd pobl yn cwtogi ar wibdeithiau byr yn hytrach na delio â'r ffordd a'r heriau o reoli'r toiled. Ar y gwaethaf, mae pobl yn osgoi mynd i leoedd, dim ond oherwydd ei fod yn mynd mor anodd.

Roedd llawer o bobl yn ein harolwg yn gwerthfawrogi cael cymorth i fynd allan. Weithiau roedd hyn i fynd i leoedd yr oedd angen iddynt ymweld â nhw megis apwyntiad ysbyty ac roedd pobl yn teimlo bod hyn yn llawer llai pryderus na gorfod mynd ar eu pen eu hunain. Ar adegau eraill gallai cymorth i fynd allan gynnwys mwy o weithgareddau llawn hwyl yn hytrach na'r pethau yr oedd angen iddynt eu gwneud. Unwaith eto roedd hyn yn rhywbeth yr oedd pobl yn dweud eu bod yn ei werthfawrogi ac yn eu helpu i gael gwell ansawdd bywyd.



## Seibiant a gofalwyr

Mae gofal seibiant yn helpu pobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr a'u teuluoedd i gael ansawdd bywyd gwell. Gall olygu wythnos i ffwrdd mewn lleoliad preswyl, diwrnodau allan neu gefnogaeth i fynd â rhywun ar wibdaith neu hyd yn oed amser i wneud rhai gweithgareddau dan do gartref. Dywedodd pobl wrthym fod hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i'w bywydau ac yn eu gwneud yn hapusach.

Clywsom nad oedd seibiant yn cael ei gynnig yn rhwydd bob amser. Mae'n bosibl na fyddai perthnasau a ffrindiau ar gael i helpu neu nid oeddent yn teimlo eu bod yn ddigon medrus i helpu. Felly, roedd teuluoedd a gofalwyr yn aml yn brwydro ymlaen ar eu pen eu hunain heb unrhyw fewnbwn allanol, weithiau am fisoedd a blynyddoedd heb gael seibiant.

Clywsom, pan oedd gofal seibiant rheolaidd ar gael, y gallai hyn fod yn help enfawr i deuluoedd. Roedd yn caniatáu iddynt ganolbwyntio mwy ar blant eraill neu aelodau o'r teulu. Roedd yn eu helpu i gynllunio ar gyfer rhywfaint o orffwys ac ymlacio. Rhoddodd seibiant iddynt o drefn ddyddiol feichus, ac amser i ailwefru eu batris emosiynol a/neu egni corfforol.

Gwyddom fod teuluoedd yn aml yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer seibiannau oherwydd iddo roi rhywbeth iddynt edrych ymlaen ato a'u helpu i deimlo'n fwy gwydn. Ond roedd y cyfleoedd hyn yn brin weithiau a gellid eu canslo heb fawr o rybudd pan oedd angen i eraill ddefnyddio gwasanaethau gofal seibiant oherwydd argyfwng brys fel salwch teuluol. Roedd pobl yn deall na ellid helpu hyn ond gallai fod yn siomedig iawn.

Dywedwyd wrthym hefyd gan deuluoedd a gofalwyr y gallai anfon eich anwylyd i leoliad seibiant dros nos, am benwythnos neu hyd yn oed yn hirach fod yn destun pryder, hyd yn oed pe bai'n dod yn rhan o drefniant rheolaidd. Gallai newid mewn trefn fod yn aflonyddgar a gallai gymryd amser i bawb ddod i arfer â threfniadau newydd. Clywsom fod rhai trefniadau seibiant wedi para am flynyddoedd ac wedi gweithio'n dda iawn.

Dywedodd pobl wrthym, pan oedd ganddynt bryderon am wasanaethau seibiant, y gallai fod yn anodd gwneud cynwys neu godi'r materion hyn i'w trafod. Roedd pobl yn ofni y gallai gael effaith negyddol ar eu gallu i gael seibiant eto neu efallai na fyddai eu hanwyliaid yn cael gofal cystal.

*“Roedd y teulu cyntaf yn hyfryd...roeddem yn teimlo ei fod yn ddiogel, yn derbyn gofal ac yn derbyn gofal. Roedd ein plentyn yn gwneud yn dda ac yn ymuno mewn gweithgareddau. Ond wedyn roedd yn rhaid iddo newid i deulu arall, ac nid oedd yn gweithio allan, roedd yn ymddangos bod pethau rhyfedd yn digwydd ac roedd yn rhaid i ni adrodd amdano i'r awdurdodau.”*

Rydych chi eisiau iddyn nhw symud ymlaen a thyfu i fyny a dod yn annibynnol, ond mae'n anodd iawn ymddiried mewn eraill i ofalu amdani. Rydych chi'n dod mor gyfarwydd â bod y person sy'n gwneud popeth, mae'n anodd trosglwyddo rhywfaint o'r cyfrifoldeb hwnnw i rywun arall.

Clywsom hefyd y gallai cymorth seibiant gan ofalwyr sy'n dod i mewn bob dydd neu ychydig o weithiau'r wythnos fod yn help mawr. Rhoddodd rhywfaint o strwythur a threfniadaeth i'r person ag anabledd dysgu ar gyfer yr wythnos i ddod. Roedd yn galluogi gofalwyr a theuluoedd i gynllunio rhai pethau arferol drostynt eu hunain fel triniaethau meddygol neu apwyntiadau deintyddol.

Clywsom hefyd nad oedd trefniadau seibiant bob amser yn gweithio os oeddent yn dameidiog ac yn anghyson. Pe bai gwahanol staff cymorth yn dod bob dydd ar wahanol adegau, gallai hyn fod yn gythryblus ac yn aflonyddgar. Os oedd newid gofalwr munud olaf yn dod i'r tŷ neu mewn gweithgaredd disgwylidig, gallai hyn gael effaith fawr. Gallai salwch gyda gofalwyr hefyd arwain at ddim cymorth ar gael a gallai achosi heriau enfawr. Roedd teuluoedd yn aml yn gweld hyn yn rhwystredig iawn pe bai'n digwydd yn aml oherwydd gallai cael trefn ragweladwy glir fod yn wirioneddol hanfodol.

Siaradodd pobl â ni hefyd am effaith cael gofalwyr yn dod i mewn i gartrefi eu teulu. Tra bod disgwyl hyn fel rhan o'r trefniant seibiant, golygai fod dieithryn yn y cartref teuluol, a diffyg preifatrwydd i eraill yn y teulu. Er bod hyn yn gweithio'n dda ar y cyfan, roedd adegau pan oedd yn straen yn enwedig pan oedd gwahanol bobl yn dod i'w cartref bob dydd. Disgrifiwyd hyn fel un cythryblus, yn enwedig pe bai gofalwyr newydd neu weithwyr cymorth yn dod i gysylltiad â bod yn rhaid dangos iddynt beth i'w wneud a lle'r oedd pethau'n cael eu cadw.





## Gofal preswyl

Weithiau mae'n rhaid i rieni a gofalwyr wneud penderfyniadau dwys am ofal preswyl hirdymor ar gyfer/gyda phobl ag anableddau dysgu. Gall hyn ddigwydd wrth i'r person adael addysg neu hyfforddiant ac eisiau byw'n annibynnol. Ar adegau eraill, mae angen newid trefniadau byw oherwydd salwch, newidiadau mewn amgylchiadau teuluol neu sefyllfa o argyfwng sydyn.

Clywsom fod y rhain yn benderfyniadau emosiynol. Os yw'ch anwylyd yn byw gartref gyda chi ac wedi gwneud hynny ers blynnyddoedd lawer neu gydol ei fywyd ond wedyn yn gorfod cael llety yn rhywle arall, yn barhaol, mae hwn yn benderfyniad mawr.

